Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 No. 274

Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023

Cyfathrebu â'r person perthnasol

7.—(1) Rhaid i'r corff cyfrifol gymryd camau rhesymol i ganfod y dull cyfathrebu a ffefrir gan y person perthnasol a, phan fo'n rhesymol ymarferol, gyfathrebu â'r person perthnasol gan ddefnyddio'r dull hwn.

(2) Rhaid i'r corff cyfrifol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod unrhyw gyfathrebu â'r person perthnasol yn digwydd mewn modd y gall y person perthnasol ei ddeall.

(3) Os na all y corff cyfrifol gysylltu â'r person perthnasol, ar ôl cymryd camau rhesymol i wneud hynny, i roi hysbysiad o dan unrhyw un neu ragor o reoliadau 4, 5 neu 6, neu os yw'r person perthnasol yn gwrthod cyfathrebu â'r corff cyfrifol—

(a) rhaid i'r corff cyfrifol sicrhau bod y cofnod a gedwir o dan reoliad 9 yn cynnwys gwybodaeth am bob ymgais a wnaed i gysylltu â'r person perthnasol neu i gyfathrebu ag ef, a

(b) mae rheoliadau 4, 5 a 6 yn peidio â bod yn gymwys.